Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Healthcare Inspectorate Wales

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da

Checking people in Wales are receiving good care

# Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2016-17

Gorffennaf 2017

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu trwy'r canlynol


**Ffôn**: 0300 062 8163
**Ebost**: agic@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk


OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG30954 ISBN digidol 978-1-78859-008-2

## Cynnwys


1. Diben.......... 5
2. Trosolwg .......... 5
3. Negeseuon allweddol .......... 5
4. Canfyddiadau'r Arolygiad .......... 6
5. Adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a chanfyddiadau thematig .......... 7
6. Camau dilynol a sicrwydd ar unwaith .......... 9
7. Llywodraethu .......... 10
8. Ymgysylltu .......... 10
9. Arolygiadau, adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a gweithgareddau thematig .......... 12

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygiu a rheoleiddio pob gofal iechyd yng Nghymru.**

# Ein diben

**Gwneud yn siwr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau yn fewnol ac allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol**

# Ein blaenoriaethau

**Drwy ein gwaith rydym yn anelu i:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Diben

Cynhyrchwyd yr adroddiad blynyddol hwn fel crynodeb o'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan AGIC rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

# 2. Trosolwg

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGIC 18 arolygiad o leoliadau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf neu ymwelwydd â hwy, gan gynnwys:

- 2 arolygiad o ysbytai; un ohonynt yn arolygiad dilynol
- 3 arolygiad o bractisau cyffredinol
- 4 arolygiad o bractisau deintyddol
- 3 arolygiad yn ymwneud ag anabledd dysgu
- 2 ymweliad yn ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- 3 arolygiad o uned iechyd meddwl; dau ohonynt yn arolygiad dilynol
- Un arolygiad ar y cyd.

# 3. Negeseuon allweddol

Dengys yr arolygiadau a gynhaliwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf fod y gofal a ddarperir i'w gleifion yn garedig a thosturiol ar y cyfan.  Fodd bynnag, bu i weithgareddau AGIC a gynhaliwyd yn ystod 2016-17 amlygu'r materion canlynol a dylai'r bwrdd eu hystyried.

- Ansawdd y dogfennau, megis cofnodi asesiadau poen, asesiadau risg cleifion a monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- Cynnal a gwella amodau amgylcheddol y cleifion hynny sydd mewn ward ac uned iechyd meddwl.

# 4. Canfyddiadau'r Arolygiad

Yn ystod 2016-17, cynhaliodd AGIC waith amrywiol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg drwy'r gwaith eleni. Ceir crynodeb o'r rhain isod.

### Arolygiadau o ysbytai

Canfu AGIC eto fod angen gwella'r dull o gofnodi poen cleifion a monitro'r driniaeth. Gwelwyd cleifion ar drolïau yn y coridorau a oedd yn herio eu hurddas a'u preifatrwydd. Roedd hefyd angen gwella'r broses o gofnodi asesiadau risg amserol o ran lles a diogelwch cleifion, yn arbennig ar gyfer niwed pwyso a meinwe, a chwympiadau. Mae hefyd angen gwella'r dogfennau er mwyn monitro tymheredd yr oergell a ddefnyddir i gadw meddyginiaeth.

### Iechyd meddwl

Yn ystod yr arolygiad hwn bu i ni ganfod meysydd o arfer da o ran darparu gofal llawn parch ac ansawdd y cynlluniau gofal triniaeth. Fodd bynnag, roedd angen gwella'r amgylchedd ymhellach. Yn ogystal, roedd angen gwella ansawdd y dull o gadw cofnodion mewn rhai rhannau o'r Ddeddf Iechyd Meddwl a gellid cynyddu'r broses o gwblhau archwiliadau clinigol.

### Practis cyffredinol

Cynhaliwyd tri arolygiad o bractisau cyffredinol yn ardal Cwm Taf yn ystod 2016-17. Arolygwyr AGIC a arweiniodd bob arolygiad gyda chymorth Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf. Yn gadarnhaol, roedd y staff yn ymddangos yn hapus ac yn cael cefnogaeth gan arweinwyr da. Fodd bynnag, gwnaed argymhellion sy'n gofyn i bractisau gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg ar gyfer Gofal Iechyd, a sicrhau y caiff prosesau cyflogi a recriwtio eu gwella.

### Deintyddol

Cynhaliwyd pedwar arolygiad o bractisau deintyddol yn ardal Cwm Taf yn ystod 2016-17. Roedd y themâu allweddol yn sgil arolygu'r practisau hyn yn gadarnhaol gan fwyaf, ac ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio mewn unrhyw bractis. O'r materion hynny a godwyd, roeddynt yn ymwneud yn gyffredinol ag adolygu a chynnal polisïau a gweithdrefnau, gwella'r broses o gadw cofnodion ac archwilio'r broses o gynnal a chadw'r offer.

### Anabledd dysgu

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf sy'n gyfrifol am wasanaethau anabledd dysgu iechyd y gymuned. Fodd bynnag, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg sy'n darparu'r rhain a gwasanaethau preswyl. Yn ystod 2016-17, cynhaliodd AGIC dri arolygiad o leoliadau preswyl yn ardal Cwm Taf.

Gwelsom fod angen gwella'r broses o lywodraethu'r ddarpariaeth gwasanaeth anabledd dysgu yn gyffredinol er mwyn gallu deall anghenion y boblogaeth, manyleb gwasanaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a goruchwylio'r trefniadau comisiynu sydd wedi'u sefydlu.

### Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid

Cynhaliwyd un arolygiad o'r Tîm Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yng Nghwm Taf. Arweiniwyd yr arolygiad gan Swyddogion Prawf Ei Mawrhydi gyda chymorth arolygwyr AGIC. Yn ystod yr arolygiad gwelsom gydweithio da rhwng y bwrdd iechyd a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid mewn meysydd penodol gan olygu llai o amser aros i bobl ifanc ddefnyddio'r gwasanaethau. Codwyd materion ynghylch nifer y systemau sy'n cofnodi nodiadau cleifion a'r ffaith nad oedd unrhyw arbenigedd seiciatrig ar gael o fewn strwythur y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

# 5. Adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a chanfyddiadau thematig

Ni wnaethom gynnal unrhyw adolygiadau arbennig nac ymchwiliadau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn ystod 2016-17.

### Adroddiad Thematig Gwasanaethau Anabledd Dysgu 2015-16

Yn ystod 2016-17 cyhoeddodd AGIC adolygiad thematig[1] o wasanaethau iechyd y GIG i bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru. Nod yr adolygiad oedd canfod cryfderau cyffredin a meysydd i'w gwella, ac mae'n gwneud argymhellion i fyrddau iechyd. Mae hefyd yn amlygu arfer da, i gefnogi'r broses

[1] http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/161208ldreviewcy.pdf

o wella'r gwasanaethau a ddarperir i bobl ag anabledd dysgu yng Nghymru. Mae canfyddiadau allweddol ar gyfer Cymru isod:

- Roedd ein canfyddiadau am y gwasanaethau a ddarperir gan dimau iechyd anabledd dysgu cymunedol yn gadarnhaol gan fwyaf
- Gwelsom fod angen gwella gwasanaethau preswyl y GIG i bobl ag anableddau dysgu yn sylweddol mewn llawer o ardaloedd
- Gwelsom fod y bobl yn derbyn gofal unigol da fel arfer gan staff a oedd yn gwneud eu gorau i ofalu am gleifion
- Nid oedd gofal cleifion yn cael ei ategu gan drefniadau rheoli a staffio da yn aml.

Mae angen i bob bwrdd iechyd ystyried diben eu lleoliadau preswyl anableddau dysgu y GIG a ph'un a yw'r gofal a ddarperir yn y sefydliadau hyn ond yn ymwneud â gofal iechyd. Os nad ydynt, dylai byrddau iechyd ystyried p'un a yw model gofal cymdeithasol yn fwy priodol.

## Adroddiad Thematig Gwasanaethau Offthalmoleg 2015-16

Cyhoeddodd AGIC adolygiad thematig[2] o Wasanaethau Offthalmoleg yn ystod 2016-17. Nod yr adolygiad oedd edrych ar ffiniau gofal sylfaenol ac eilaidd i archwilio sut yr oedd darparwyr yn cyflwyno ac yn datblygu gwasanaethau. Canolbwynt yr adolygiad oedd Dirywiad Macwlaidd sy'n Gysylltiedig â Henaint (AMD) 'gwlyb', o ganlyniad i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw oedi mewn triniaeth i gleifion. Prif ganfyddiadau ein hadolygiad oedd:

- Nid oes gan wasanaethau gofal llygaid ledled Cymru ddigon o allu ym maes gofal eilaidd i fodloni'r gofynion presennol
- Gall absenoldeb gweithwyr allweddol achosi i rannau o'r llwybr gofal beidio â gweithio'n effeithiol gan gynyddu'r risg o niwed posibl y gellir ei osgoi i gleifion
- Mae angen gwell gwybodaeth ar fyrddau iechyd am y bwlch mewn galw am y gallu er mwyn gwneud penderfyniadau cytbwys i gynllunio'r gweithlu

---

[2] http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/170131opreviewcy.pdf

- Clywsom y bu i gysylltiadau gweithio gwael rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd yn ardaloedd rhai byrddau iechyd rwystro ymdrechion i wella'r broses o gydweithio

- Gwelsom rai mentrau newydd ledled Cymru sy'n ymwneud â chyflwyno gwasanaethau AMD 'gwlyb', gan gynnwys cyflwyno chwistrellwyr anfeddygol. Fodd bynnag, ni fu'r cynnydd yn y broses o ddatblygu a chyflwyno'r mentrau hyn yn gyson ar draws y byrddau iechyd.

Mae angen i bob bwrdd iechyd ddeall bod angen datblygu gwasanaethau ymhellach er mwyn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn llawn er mwyn cryfhau seilwaith a chynaliadwyedd gwasanaethau gofal llygaid.

# 6. Camau dilynol a sicrwydd ar unwaith

### Camau dilynol

Bu i ni gyhoeddi adroddiad arolygu o'n canfyddiadau yn dilyn pob un o'n harolygiadau. Lle'r oeddem wedi nodi bod angen gwelliant, roedd hefyd yn ofynnol gennym fod y bwrdd iechyd neu'r practis yn darparu cynllun gwella ar ein cyfer yn nodi sut roeddent yn mynd i gyflawni'r gwelliannau. Ar gyfer rhai arolygiadau, byddwn yn cynnal arolygiad dilynol er mwyn sicrhau bod y cynlluniau gwella wedi derbyn sylw.

- Ysbyty Cwm Cynon – Nodwyd gwelliannau yn dilyn yr arolygiad blaenorol, a oedd yn ymwneud yn benodol ag asesu ymataliaeth a chofnodi cyfarfodydd aml-ddisgyblaeth sy'n gysylltiedig â rhyddhau o'r ysbyty. Fodd bynnag, roedd angen gwella'r broses o gofnodi a monitro asesiad o boen ymhellach. Amlygwyd hyn fel maes i'w wella yn adroddiad blynyddol y bwrdd iechyd ar gyfer 2015-16.

- Ysbyty Brenhinol Morgannwg – Cynhaliwyd dau arolygiad dilynol yn ystod 2016-17, un ym mis Gorffennaf 2016 a'r ail un ym mis Ionawr 2017. Gwelsom ganfyddiadau cadarnhaol ar y ddau achlysur o gymharu ag ymweliadau blaenorol, megis cynnydd yn nifer y staff nos a rhywfaint o welliannau i'r amgylchedd. Ym mis Ionawr 2017, gwelsom hefyd rywfaint o welliannau i'r ddarpariaeth bwyd. Fodd bynnag, ar y ddau achlysur roedd angen gwelliannau pellach o ran amgylchedd y ward, ac ym mis Ionawr yn benodol gwnaed argymhellion yn ymwneud â chynnal yr amgylchedd. Crybwyllwyd urddas cleifion yn y ddau adroddiad sy'n ymwneud â'r ymweliadau dilynol eleni.

### Sicrwydd ar unwaith

Lle y gwnaethom nodi perygl i ddiogelwch cleifion a oedd angen camau gwella ar unwaith, gwnaethom gyflwyno llythyrau i'r bwrdd iechyd a phractisau yn unol â phroses sicrwydd ar unwaith AGIC.

O'r arolygiadau a gynhaliwyd ar draws bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf dim ond un arolygiad a arweiniodd at anfon llythyr sicrwydd ar unwaith. Roedd hyn yn ystod arolygiad dilynol o adran Iechyd Meddwl Ysbyty Brenhinol Morgannwg ar ward Seren a oedd yn canolbwyntio ar gynnal a chadw'r amgylchedd megis difrod i reiliau a dolenni a allai achosi damweiniau.

# 7. Llywodraethu

Yn ystod 2016-17 roedd nifer o gyfleoedd i'r bwrdd iechyd arddangos ei fod yn sefydliad dysgu. Ymatebodd y bwrdd iechyd yn gadarn wrth i faterion godi.

Gwelwyd adroddiadau arolygu yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch.

Fodd bynnag, nid yw'r bwrdd iechyd wedi sefydlu dulliau llwyddiannus hyd yn hyn i rannu'r holl arfer da yn effeithiol. Er enghraifft, amlygodd arolygiad dilynol o Ysbyty Cwm Cynon na chofnodwyd y broses o asesu poen yn effeithiol. Gwelwyd y mater hwn hefyd mewn arolygiadau damweiniau ac achosion brys a ddigwyddodd yn ddiweddarach yn y flwyddyn ac fe'i crybwyllwyd mewn adroddiadau blynyddol blaenorol y bwrdd iechyd.

# 8. Ymgysylltu

Yn ystod 2016-17 mynychodd Rheolwr Cysylltiadau AGIC nifer o gyfarfodydd y bwrdd iechyd gan gynnwys cyflwyno adroddiad Bwrdd Iechyd 2015-16 i'r Bwrdd Cyhoeddus a mynychu cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch.

Mynychodd Rheolwr Cysylltiadau AGIC y diwrnod Blasu Ansawdd yn ysbyty'r Tywysog Siarl ar ôl derbyn gwahoddiad gan y bwrdd iechyd.

Bu i Brif Weithredwr AGIC gyfarfod â'r Prif Weithredwr ac Is-Gadeirydd y bwrdd iechyd yn ystod mis Mehefin 2016.

Croesawodd y bwrdd iechyd unrhyw ddulliau gan AGIC yn ystod y flwyddyn.

Ymdriniwyd â'r ohebiaeth rhwng AGIC a'r bwrdd iechyd mewn ffordd amserol a boddhaol. Yn ystod y flwyddyn ysgrifennodd AGIC at y bwrdd iechyd dair

gwaith gyda manylion am y pryderon a godwyd a derbyniwyd atebion prydlon bob tro.

# 9. Arolygiadau, adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a gweithgareddau thematig

### Arolygiadau o Ysbytai

| | |
|---|---|
| 1. Ysbyty Cwm Cynon (Arolygiad dilynol) | 5 Mai 2016 |
| 2. Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg | 29 Tachwedd 2016 |

### Arolygiadau o Bractisau Meddygon Teulu

| | |
|---|---|
| 3. Meddygfa Fferm Porth, Stryd y (???)Porth, Porth. CF39 9RR | 7 Chwefror 2017 |
| 4. Y Feddygfa, 150 Tyntyla Rd, Llwynypia, Tonypandy. CF40 2SX | 14 Chwefror 2017 |
| 5. Meddygfa Park Lane, Mill Street, Tonyrefail. CF39 8AG | 14 Mawrth 2017 |

### Arolygiadau deintyddol

| | |
|---|---|
| 6. Gofal Deintyddol Smiles, 29 Stryd Fawr, Merthyr Tydful. CF47 8DP | 9 Awst 2016 |
| 7. Meddygfa Ddeintyddol Morgan Street, 20 Morgan Street, Pontypridd. CF37 2DS | 14 Tachwedd 2016 |
| 8. Gofal Deintyddol Glenhaven, 129 Ffordd Caerdydd, Ffynnon Taf. CF15 7PP | 12 Rhagfyr 2016 |
| 9. Practis Deintyddol Cefn Coed, 148 Stryd Fawr, Merthyr Tydful. CF48 2PL | 6 Chwefror 2017 |

### Arolygiadau anabledd dysgu

| | |
|---|---|
| 10. Gwasanaeth preswyl a reolir ABMU | 7 Mehefin 2016 |
| 11. Gwasanaeth preswyl a reolir ABMU | 27 Mehefin 2016 |
| 12. Gwasanaeth preswyl a reolir ABMU | 7 Gorffennaf 2016 |

### Arolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl

| | |
|---|---|
| 13. Tŷ Llidiard (2 ymweliad) | 27 Mawrth 2017 |

### Arolygiadau uned Iechyd Meddwl

| | |
|---|---|
| 15. Ysbyty Brenhinol Morgannwg (Arolygiad dilynol) | 11 Gorffennaf 2016 |
| 16. Ysbyty Brenhinol Morgannwg (Arolygiad dilynol) | 9 Ionawr 2017 |
| 17. Tŷ Llidiard | 27 Mawrth 2017 |

### Arolygiad ar y cyd

| | |
|---|---|
| 18. Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid (Heb ei gyhoeddi gan AGIC) | 27 Mawrth 2017 |